

Radio Cymunedol: diweddariad o ran y blaenoriaethau sydd wedi'u nodi

Diweddariad ar ein gwaith diweddar a'n blaenoriaethau o ran trwyddedu radio cymunedol

Gwella ac ymestyn darpariaeth

Yn ystod 2018, gwnaethom wahodd gorsafoedd radio cymunedol i gyflwyno ceisiadau i [wella neu ymestyn](#) y ddarpariaeth yn yr ardal y mae ganddynt drwydded ar ei chyfer. Cawsom 127 o geisiadau i gyd ac mae'r gwaith bron â chael ei gwblhau (mae'r rhan fwyaf o'r trwyddedeion a wnaeth gais eisoes wedi clywed yn ôl gennym am eu cais; gall y rhai nad ydynt wedi clywed eto ddisgwyl clywed gennym yn fuan).

Gwelliannau i ddarpariaeth

Hyd yma, rydym wedi cytuno i 63 gwelliant i ddarpariaeth gorsafoedd radio cymunedol. Fel arfer, caiff hyn ei gyflawni drwy ganiatáu cynyddu pŵer o'r safle presennol. Ym mhob achos, y nod yw gwneud y derbyniad yn gryfach i wrandawyr y mae twrw clecian yn effeithio ar eu gwrando fel arfer, a hefyd llenwi rhai 'tyllau' yn narpariaeth ddaearyddol y gwasanaeth.

Estyniadau i ddarpariaeth

Rydym hefyd wedi cytuno i 33 o geisiadau gan orsafoedd i ehangu eu darpariaeth. Mae'r gyfraith ynglŷn â radio cymunedol yn dweud mai dim ond ar sail dau reswm y gall Ofcom gymeradwyo ymestyn ardal drwyddedig i ardal neu gymdogaeth gyfagos, sef: pe na bai'n golygu cynnydd sylweddol yn yr ardal drwyddedig, neu pe bai Ofcom o'r farn y gellir cyfiawnhau cynnydd i'r ardal drwyddedig o dan amgylchiadau eithriadol yr achos (nid yw'r meini prawf statudol hyn yn berthnasol i welliannau i'r ddarpariaeth). Fel arfer mae estyniadau yn ychwanegu tref neu bentrefi cyfagos at yr ardal ddarlledu drwyddedig. Bob mis rydym yn cyhoeddi rhesymau dros gytuno i geisiadau, a chânt eu cyhoeddi yn ein [diweddariadau darlledu radio](#) misol.

Manteision i wrandawyr

Unwaith y caiff y newidiadau y cytunwyd iddynt eu gweithredu bydd llawer mwy o bobl leol yn gallu mwynhau radio cymunedol, gwrando ar newyddion a gwybodaeth leol, dod yn rhan o drafodaethau lleol, a hyd yn oed gymryd rhan yn gwneud rhaglenni ac yn rhedeg yr orsaf os ydynt yn dymuno.

Mae gorsafoedd cymunedol yn cael eu rhedeg yn lleol ac yn canolbwyntio ar wasanaethu eu cymuned darged gyda gwasanaeth difyr, llawn gwybodaeth. Mae gorsafoedd wedi dweud wrthym am y manteision y maent am eu cynnig i fwy o bobl yn eu hardal:

- Mae gorsafoedd eisiau chwilio am fwy o wirfoddolwyr dros ardal ehangach. Gwirfoddolwyr yw hanfod radio cymunedol, ac maen nhw'n elwa o gael hyfforddiant, bod yn rhan o dîm a gwneud gwaith sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl yn eu tref.
- Mewn llawer o leoedd (ac ardaloedd gwledig yn arbennig), dywedodd gorsafoedd wrthym sut mae'r gwasanaeth yn helpu i atal unigrwydd ac atal pobl rhag teimlo'n ynysig.

- Dywedodd nifer o orsafoedd wrthym am eu gwaith gyda phartneriaid lleol, yn aml yn gweithio gyda grwpiau penodol fel plant neu'r henoed. Mae gorsafoedd am ledaenu'r neges am brosiectau o'r fath dros ardal ehangach fel eu bod o fudd i fwy o bobl.
- Mae llawer o orsafoedd yn darlledu o ddigwyddiadau lleol. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo'r digwyddiadau hyn ac mae'n rhoi'r cyfle i bobl i gwrdd â staff yr orsaf a siarad â nhw am beth maen nhw'n ei wneud.

Ceisiadau a wrthodwyd

Hyd yma mae 27 o geisiadau wedi cael eu gwrthod. Mae amryw o resymau dros beidio â chytuno i gais. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- materion technegol, megis mwy o darfu (sŵn clecian) ar wasanaethau eraill a hynny ar lefel annerbyniol; neu lefelau uchel o sŵn clecian ar wasanaeth yr orsaf ei hun;
- y dirwedd leol yn blocio'r signal fel nad oedd modd sicrhau'r newid yn y ddarpariaeth ddaearyddol yr oedd yr orsaf am ei gynnig;
- nid oedd yr estyniad y gofynnwyd amdano yn ein bodloni o ran y meini prawf statudol, y cyfeiriwyd atynt uchod, megis:
 - nid oedd yr ardal y gwnaed cais amdani yn ffinio â'r ardal drwyddedig bresennol;
 - byddai'r cynnydd yn y boblogaeth a wasanaethir, neu faint yr ardal y gwnaed cais amdani, yn sylweddol ac roedd Ofcom o'r farn nad oedd amgylchiadau eithriadol i gyfiawnhau estyniad o'r fath.

Ceisiadau pellach am estyniadau a gwelliannau

Gall trwyddedeion radio cymunedol wneud cais am newidiadau technegol, yn cynnwys gwella'u darpariaeth neu ehangu eu hardal ddarlledu drwyddedig, ar unrhyw adeg, yn yr un ffordd ag y mae trwyddedeion radio masnachol wedi gallu'i wneud erioed. Fodd bynnag, nid yw ceisiadau o'r fath fel arfer yn cael eu trin fel blaenoriaeth a byddant yn ymuno â'r 'ciw' o geisiadau y mae angen delio â nhw pan fydd gennym ddigon o amser ac adnoddau ar gael. (Gweler [gwybodaeth a ffurflen gais newid technegol radio cymunedol](#) ar ein gwefan.)

Trwyddedu gwasanaethau radio cymunedol newydd

Rydym yn symud ymlaen yn awr i brosesu'r ceisiadau a ddaeth i law yn gynharach yn y flwyddyn am drwyddedau radio cymunedol newydd. (Mae'r ceisiadau ar ein [gwefan yma](#).)

Hwn fydd y cylch olaf o drwyddedau radio cymunedol analog (FM neu AM) cyn belled ag y gellir rhagweld i'r dyfodol wrthi inni droi ein sylw tuag at weithredu'r fframwaith trwyddedu ar gyfer DAB ar raddfa fach.

Trwyddedau DAB ar raddfa fach:

Mae DAB ar raddfa fach yn ffordd newydd o drawsyrnu radio digidol. Mae'n defnyddio datblygiadau mewn meddalwedd a thechnoleg gyfrifiadurol rad i ddarparu dull gweithredu hyblyg a fforddiadwy i ddarlledu gwasanaethau radio digidol yn ddaearol i ardal ddaearyddol gymharol fach.

Mae ein [hymgyngoriad ynghylch trwyddedu gwasanaethau DAB ar raddfa fach](#) yn dod i ben ar 4 Hydref 2019. Byddwn yn ystyried yr ymatebion ar ôl y dyddiad cau ac yn cyhoeddi datganiad maes o law. Rydyn ni'n disgwyl gwahodd ceisiadau yn 2020.

Rydym yn falch o fod wedi cael lefel uchel o ddiddordeb yn y trwyddedau newydd hun (trwyddedau amblecs ar raddfa fach a thrwyddedau gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol) ar ffurf datganiadau o ddiddordeb gan grwpiau sydd â diddordeb mewn gwneud cais. Bydd y trwyddedau amblecs bach hyn o fudd arbennig i orsafoedd radio bach a gwasanaethau radio cymunedol, yn ogystal â phobl sy'n byw yn yr ardaloedd dan sylw. Rydyn ni'n bwriadu cynnig y trwyddedau hyn ar draws y DU.

26 Medi 2019